Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf. Tymor olaf yma yn Ysgol Penalltau!

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Trwy ein sesiynau iaith a thematig bydd disgyblion yn datblygu eu gallu i ddewis strategaethau ieithyddol i greu effaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig: gan edrych yn fanwl ar ddewisiadau, agoriadau brawddeg, defnydd o atalnodi cymhleth, geirfa helaeth (gan gynnwys geirfa bynciol) a chysyllteiriau. Bydd ystod eang o gyfleoedd darllen yn eu helpu i ddatblygu sgiliau darllen megis mynegiant, llithrddarllen, cipddarllen a chrynhoi a darllen rhwng y llinellau. Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio geiriadur, thesawrws a rhestri termau. Byddwn yn parhau i ymarfer llawysgrifen i sicrhau'r cyflwyniad gorau posibl. Bydd eich plentyn yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r cysylltiad rhwng ieithoedd gyda ffocws penodol ar ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Ffrangeg.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Hyd yn oed ym mlynyddoedd olaf y cynradd, rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at dduliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth wyddant neu beth helpodd ac i ddefnyddio dulliau amrywiol neu weithrediadau gwrth droi i wirio eu gwaith.

## Thema

Ein thema y tymor yma yw 'Ein Byd Rhyfeddol.' Bydd y dosbarth yn edrych ar effaith gweithredoedd dynol ar y byd naturiol ac yn trafod ac esbonio'n syml sut a pham mae rhai lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirweddau yn arbennig o bwysig i wahanol bobl. Bydd cyfle i ystyried nodweddion pethau byw gan ddechrau defnyddio geirfa addas: Symud, Tyfu, Sensitif, maeth, atgenhedlu. Bydd y plant hefyd yn adalw gwybodaeth am ddosbarthiad pethau bywgallu ac yn esbonio bod pethau byw yn cael eu dosbarthu i bum teyrnas. Gwaith lluniadol Ernst Haekel bydd yn llywio ein gwaith celf gan edrych ar liw, arliw a thôn wrth beintio. Byddwn yn dysgu sgiliau cyfryngau digidol i greu cyflwyniad ar waith y tymor. Bydd y dosbarth yn dod i wybod am werthoedd Dyneiddiol a gwerthoedd Cristnogol.

## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, bydd canolbwyntiad ar athletau yn arwain at y mabolgamau. Themau Jigso y tymor yma yw: Perthnasoedd a Newid.

**Dosbarth: Branwen**

**Blwyddyn 6**

### Pethau i 'w Cofio

Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl POB dydd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff ar Ddydd Iau.
Bydd angen dillad coeldan ar y diwrnodau a nodwyd ar Post Penalltau (pob pythefnos dechrau Dydd Mawrth 21/04/26)
Bydd ymweliad nesaf Parc Penalltau ar 16/6/26
Defnyddiwch Google Classroom er mwyn danogs gwaith neu lwyddiannau.





www.ysgolpenalltau.com ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk @penalltau 01443 862974